# DATGANIAD YSGRIFENEDIG

Teitl: Rhaglen Ddiwygio’r Cynulliad

Dyddiad: 13 Mehefin 2017

Gan: Elin Jones AC, y Llywydd, fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad

Ym mis Gorffennaf 2016, cytunodd y Cynulliad yn unfrydol y dylai enw'r sefydliad adlewyrchu ei statws cyfansoddiadol fel senedd genedlaethol.

Erbyn hyn, mae'r Cynulliad yn pasio deddfau ac yn cytuno ar drethi, yn ogystal â dwyn y Llywodraeth i gyfrif ac mae'n ganolbwynt ar gyfer trafodaethau democrataidd ar faterion sy'n bwysig i bobl Cymru.

Er mwyn gweithredu ar y penderfyniad hwn, ymgynghorodd y Comisiwn â'r cyhoedd rhwng 8 Rhagfyr 2016 a 3 Mawrth 2017. Hoffwn ddiolch i'r nifer fawr o bobl ar draws Cymru a roddodd o'u hamser i roi eu barn inni.

Heddiw mae Comisiwn y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad sy'n rhoi dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Cawsom gyfanswm o 2,821 o ymatebion i'r arolwg gan bobl o bob oedran ac o bob rhan o Gymru.

Dyma'r prif ganfyddiadau:

- roedd 60 y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod pobl yn deall rôl y Cynulliad yn dda;
- roedd 61 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y dylai'r Cynulliad newid ei enw;
- yr enw a oedd yn disgrifio orau rôl a chyfrifoldeb y sefydliad yn ôl yr ymatebwyr oedd: Senedd Cymru /Welsh Parliament (73 y cant).

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Cysylltu@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Contact@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6565

Mae Comisiwn y Cynulliad wedi ystyried yr ymatebion a ddaeth i law a sut i ymateb.

Rydym wedi cytuno y dylem, cyn diwedd y Cynulliad hwn, ddeddfu i newid enw'r sefydliad i Senedd Cymru/Welsh Parliament. Byddai'r Aelodau yn cael eu hadnabod fel Aelodau o Senedd Cymru (ASC)/ Welsh Parliament Members (WPM).

Mae gan rai o'r bobl a ymatebodd i'n hymgynghoriad bryderon ynghylch costau posibl ar gyfer unrhyw newid i'r enw. Mae'r Comisiwn yn deall y pryderon hyn a bydd yn cynllunio'r newid fel y gellir lleihau'r gost. Rydym yn bwriadu, ymhen amser, newid enw'r Cynulliad yn unig, gan osgoi'r angen i gael unrhyw ail-frandio ar raddfa fawr neu i newid y logo. Yn y cyfamser, bydd y sefydliad hwn yn parhau i gael ei adnabod yn swyddogol gan ei enw statudol presennol, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn osgoi dryswch a lleihau costau ac aflonyddwch.

Mae'r pwerau a drosglwyddwyd gan Ddeddf Cymru 2017 yn rhoi'r cyfle inni symud ymlaen i newid enw'r Cynulliad fel rhan o becyn ehangach o ddiwygiadau, a fydd, yn eu cyfanrwydd, yn sicrhau bod y Cynulliad yn parhau i fod yn sefydliad hygyrch sy'n edrych tuag at y dyfodol ac sy'n gwasanaethu pobl Cymru yn effeithiol.

Yn benodol, mae'r Ddeddf yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad dros amryw o'i drefniadau mewnol, sefydliadol a gweithredol. Mae'r rhain yn cynnwys materion megis rheolau o ran anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Cynulliad, gweinyddu etholiadol, a dylunio ein system bwyllgorau.

Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol fy mod wedi sefydlu Panel Arbenigol ar Ddiwygio Trefniadau Etholiadol y Cynulliad ar gyfer darparu cyngor diduedd, annibynnol, ac arbenigol er mwyn defnyddio rhai o'r pwerau hyn. Bydd y Panel, a gadeirir gan yr Athro Laura McAllister CBE, yn cyflwyno ei adroddiad erbyn yr hydref 2017. Ar ôl i'r Panel gyflwyno ei adroddiad, bydd y Comisiwn, blwyddyn nesa, yn ystyried cwmpas llawn ein rhaglen ddiwygio a'r cynigion deddfwriaethol yr ydym yn bwriadu eu cyflwyno.

Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn manteisio ar y cyfle i ddiwygio'n fwy sylfaenol ein trefniadau etholiadol a mewnol, yn ogystal ag ar y weithred symbolaidd a phwysig o newid enw'r sefydliad.  Wrth arwain y gwaith hwn ar ran y sefydliad ei hun, mae'r Comisiwn yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y consensws gwleidyddol ar draws yr holl bleidiau.  Yn anad dim, ein nod yw creu senedd i Gymru sy'n ennyn ymddiriedaeth y rhai yr ydym yn eu gwasanaethu, yn adlewyrchu pwysau'r cyfrifoldeb sydd ar ein hysgwyddau, ac yn cryfhau ein system ddemocrataidd er mwyn iddi fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu fel cenedl.

Byddaf yn parhau i hysbysu’r Aelodau wrth i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen.